



DementiaUK
Helping families face dementia

Nyrsys Admiral arbenigol ym maes dementia



Beth yw Nyrs Admiral?

Nyrsys arbenigol ym maes dementia yw Nyrsys Admiral sy'n cael eu cefnogi a'u datblygu gan Dementia UK. Maent yn darparu cymorth sy'n newid bywydau ar gyfer teuluoedd y mae pob math o ddementia'n effeithio arnynt, gan gynnwys clefyd Alzheimer.

Mae Nyrsys Admiral yn rhoi cyngor clinigol a chymorth seicolegol wedi'u teilwra ar gyfer teuluoedd.

Mae ganddynt yr amser i wrando a'r wybodaeth i ddatrys problemau. Maent yn cynnig cymorth amhrisiadwy i bobl â dementia, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Mae Nyrsys Admiral yn gweithio mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau gan gynnwys cymunedau lleol, ysbytai, hosbisau a chartrefi gofal Mae Nyrsys Admiral hefyd yn gweithio ar Linell gymorth Dementia UK ac mewn clinigau rhithwir, gan gynnig apwyntiadau dros y ffôn neu alwad fideo.

Sut gall Nyrs Admiral fy helpu i?

Mae pob un o Nyrsys Admiral wedi cymhwyso gydag arbenigedd proffesiynol mewn dementia. Golyga

eu gwybodaeth a'u profiad clinigol helaeth eu bod yn gallu cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd drwy rai o'r sefyllfaoedd mwyaf cymhleth.

Maent yn dechrau gydag asesiad wedi'i bersonoli ar gyfer pob teulu, ac wedyn yn darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer pob agwedd ar ddementia, o ymdrin â symptomau megis ymddygiad trallodus a phroblemau cysgu i reoli straen a strategaethau ymdopi.

Maent yn canolbwyntio ar y teulu cyfan, gan gynnwys sicrhau bod gan ofalwyr y cymorth a'r sgiliau y mae arnynt eu hangen. Gallant ddarparu addysg gofalwyr arbenigol neu raglenni hyfforddi, a helpu teuluoedd i fanteisio ar ofal seibiant neu wasanaethau cymorth hanfodol.

Gall Nyrsys Admiral hefyd helpu teuluoedd i adeiladu cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill a helpu i gydlynu'r gwahanol wasanaethau a allai fod yn rhan o gefnogi'r person â dementia.

Gallant eirioli ar gyfer teuluoedd sy'n mynd trwy systemau gofal cymhleth a'u helpu nhw i baratoi ar gyfer prosesau cymhleth megis gwneud cais am arian a budd-daliadau.

Ble gallaf ddod o hyd i Nyrsys Admiral?

Ar ein Llinell Gymorth

Nyrsys Admiral sy'n rhedeg ein Llinell Gymorth Dementia genedlaethol ac mae'n rhad ac am ddim i'w ffonio ar **0800 888 6678**. Mae'r Llinell Gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Mawrth rhwng 9am a 9pm, Sadwrn a Sul rhwng 9am a 5pm, ac ar bob Gŵyl y Banc ac eithrio 25 Rhagfyr.

Mae pob galwad yn gyfrinachol. Gallwch hefyd e-bostio

helpline@dementiauk.org

Mewn clinigau rhithwir Nes at y Cartref

Cynigia ein clinigau rhithwir apwyntiadau gyda Nyrsys Admiral dros y ffôn neu Zoom. Mae'r apwyntiadau'n para 45 munud a gellir eu harchebu yn dementiauk.org/closer-to-home

Yn eich ardal

Mae gwasanaethau Nyrsys Admiral cymunedol yn helpu teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth sy'n ymwneud â dementia.

Os hoffech gymorth un o'n nyrsys yn bersonol, gallwch ofyn i'ch meddyg teulu neu i'ch gweithiwr cymdeithasol a oes gwasanaeth Nyrsys Admiral yn eich ardal ac a ydych chi neu'r aelod o'ch teulu yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio, neu ffonio ein Llinell Gymorth am wybodaeth.

Yn yr ysbyty

Gofynnwch i'r nyrs â gofal yn y ward a oes gwasanaeth Nyrsys Admiral yn yr ysbyty, neu ffoniwch y Llinell Gymorth i gael gwybodaeth.

Mewn cartref gofal neu hosbis

Bydd rheolwr y cartref gofal/hosbis yn gallu dweud wrthy ch a oes Nyrsys Admiral yn gysylltiedig â'r cartref neu'r hosbis.

Pam Nyrsys Admiral?

Enwyd ein nyrsys gan deulu sylfaenydd Dementia UK Joseph Levy CBE BEM. Roedd gan Joseph ddementia fasgwlaidd, ac fe'i gelwid yn annwyl yn Admiral Joe oherwydd ei hoffter o hwylio. Cafodd Nyrsys Admiral eu henwi er anrhydedd iddo.

Ysgrifennwyd y wybodaeth yn y llyfryn hwn a'i hadolygu gan Nyrsys Admiral sy'n arbenigo ym maes dementia.

Rydym bob amser am wella ein hadnoddau er mwyn rhoi'r cymorth mwyaf priodol i deuluoedd sy'n byw â dementia. Os hoffech roi adborth ar unrhyw un o'n taflenni, e-bostiwch feedback@dementiauk.org.

Nid ydym yn cael unrhyw gyllid gan y llywodraeth. Rydym yn dibynnu ar roddion gwirfoddol, gan gynnwys rhoddion mewn ewyllysiau.

I gael rhagor o wybodaeth ar sut i gynorthwyo Dementia UK, ewch i dementiauk.org/donate neu ffoniwch **0300 365 5500**.

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022
Dyddiad adolygu: Awst 2024
© Dementia UK 2022



Os ydych yn gofalu am rywun â dementia, neu os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau eraill, ffoniwch neu e-bostiwch ein Nyrsys Admiral am gymorth a chynngor arbenigol.

Ffoniwch **0800 888 6678** neu e-bostiwch helpline@dementiauk.org.

Ar agor o ddydd Gwener i ddydd Sadwrn, rhwng 9am a 9pm
Sadwrn a Sul, rhwng 9am a 5pm



dementiauk.org • info@dementiauk.org